## Sut mae'r Rheoleiddiwr yn ymdrin â Phryderon Chwythu'r Chwiban.

### Beth yw chwythu'r chwiban?

Chwythu'r chwiban yw'r term sy'n cael ei ddefnyddio'n aml i ddisgrifio sefyllfa pan fo aelod o staff, aelod o'r bwrdd neu rywun arall yn codi pryder am ymddygiad amhriodol, camweithredu, risg neu gamymddwyn gyda rhywun mewn awdurdod, naill ai'n fewnol neu'n allanol, gan gynnwys y Rheoleiddiwr.

Gall hawliad chwythu'r chwiban hefyd gael ei alw'n ddatgeliad gwarchodedig o dan Ddeddf Datgelu Er Lles y Cyhoedd 1988. (y Ddeddf)

### Amddiffyn Chwythwyr Chwiban - y Ddeddf

Mae'r Rheoleiddiwr yn berson rhagnodedig o dan y Ddeddf. Mae'r Ddeddf yn amddiffyn cyflogeion, asiantiaid a chontractwyr (ac, mewn rhai achosion, gyn-gyflogeion) ac, os bydd chwythwr chwiban yn gwneud datgeliad cymhwysol i'r Rheoleiddiwr yn ddidwyll ac yn credu'n rhesymol ei fod yn wir, caiff ei amddiffyn o dan y Ddeddf.

Mae hawl gan chwythwyr chwiban sy'n gwneud datgeliad gwarchodedig i beidio â phrofi unrhyw anfantais gan eu cyflogwyr. Os cânt eu trin yn llai ffafriol am eu bod wedi gwneud datgeliad, gallant gyflwyno hawliad i'r Tribiwnlys Cyflogaeth os byddant yn profi colled o ganlyniad i hynny. Y Tribiwnlys Cyflogaeth fydd yn penderfynu p'un a yw unrhyw hawliad chwythu'r chwiban yn ddatgeliad gwarchodedig.

**Ni chaiff datgeliadau sy'n faleisus neu y gwyddys eu bod yn gelwyddog eu hamddiffyn o dan y Ddeddf. Er mwyn cael eich amddiffyn, rhaid gwneud datgeliad er lles y cyhoedd a rhaid iddo ymwneud ag achosion posibl o'r canlynol:**

- Camymddwyn, amhriodoldeb neu dwyll ariannol.
- Methiant i gydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol neu Statudau.
- Peryglon i iechyd a diogelwch neu'r amgylchedd.
- Gweithgarwch troseddol.
- Camweinyddu cyfiawnder.
- Camymddwyn proffesiynol.
- Ymddygiad amhriodol neu anfoesol.
- Methiannau sylweddol mewn cydberthnasau, gan gynnwys rhwng y Bwrdd, y staff a'r tîm rheoli.
- Ymdrechion i gelu unrhyw rai o'r uchod.

### Pwy sy'n cael eu hamddiffyn?

Mae'r Ddeddf yn amddiffyn staff sy'n gwneud datgeliad cymhwysol i berson rhagnodedig p'un a ydynt wedi codi'r mater o fewn eu sefydliad eu hunain ai peidio. Nid yw'r Ddeddf yn gymwys i aelodau bwrdd. Fodd bynnag, bydd y Rheoleiddiwr yn ymdrin â phryderon a gaiff eu codi gan aelodau bwrdd yn yr un ffordd ag y mae'n delio â datgeliadau cymhwysol gan staff.

**A yw'r un rheolau yn gymwys i achwyniadau a chwynion?**

Mae **chwythu'r chwiban** yn ymwneud ag ymddygiad sy'n effeithio ar eraill: er enghraifft, twyll neu fethiant i gydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch. Mae'n wahanol i achwyniadau a chwynion.

Achwyniad yw pan fo gan aelod o staff gŵyn bersonol am ei sefyllfa waith ei hun. Ni fyddwn yn ymdrin ag achwyniadau gan staff yn erbyn Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) ond byddwn yn ystyried yn ofalus p'un a oes gennym rôl i'w chwarae pan fo arwyddocâd ehangach i'r amgylchiadau sy'n arwain at achwyniad a'n bod o'r farn y gallai fygwth buddiannau tenantiaid neu ddefnyddwyr gwasanaethau eraill, neu beri risg i hyfywedd y LCC.

**Mae chwythu'r chwiban yn rhan bwysig o lywodraethu da**

Gall problemau godi ym mhob sefydliad ac, yn aml iawn, y bobl orau i ganfod y problemau hyn yw'r bobl sy'n gweithio i'r sefydliad. Gall y ffaith bod LCC yn croesawu chwythu'r chwiban ac yn ei gymryd o ddifrif helpu i atal unrhyw gamweithredu.

**Chwythu'r Chwiban - Gofyniad Rheoliadol**

Rhaid bod gan bob LCC bolisi chwythu'r chwiban sy'n cydnabod pwysigrwydd chwythu'r chwiban i lywodraethu da. Rhaid i'r polisi hyrwyddo ymagwedd agored a chadarnhaol at chwythu'r chwiban fel y gall staff, aelodau bwrdd ac eraill deimlo'n hyderus ynglŷn â chodi materion yn fewnol heb ofni dial. Rydym yn disgwyl i bob LCC gymryd unrhyw bryderon a godir o ddifrif ac ymchwilio i'r mater yn briodol ac yn drylwyr.

Rhaid i'r polisi hefyd nodi'n glir y gall fod yn briodol i staff godi pryderon â'r rheoleiddiwr ac na ddylent brofi unrhyw anfantais yn sgil hynny.

**Beth fydd y Rheoleiddiwr yn ei wneud pan fydd chwythwr chwiban yn codi pryder?**

Byddwn yn cymryd pob pryder o ddifrif, hyd yn oed os cânt eu cyflwyno i ni'n ddienw. Fodd bynnag, ni fyddwn yn gwneud unrhyw dybiaethau bod unrhyw bryderon a gaiff eu dwyn i'n sylw yn wir neu'n anwir.

Byddwn yn gofyn i'r chwythwr chwiban p'un a yw wedi codi ei bryderon yn uniongyrchol â'r gymdeithas dai. Lle bo hynny'n bosibl, byddwn yn gofyn iddo ddarparu tystiolaeth i brofi ei bryderon a byddwn yn ystyried unrhyw dystiolaeth a gyflwynir i ni.

**Bydd** honiadau dienw yn cael eu hystyried, ond mae pryderon dienw yn llai pwerus ac, yn aml, mae'n anos ymchwilio iddynt.

Wrth benderfynu p'un a ddylid ymchwilio ymhellach i honiad dienw o dan y polisi a'r canllaw a'r gweithdrefnau hyn, bydd y Tîm Rheoli Rheoleiddio yn ystyried y canlynol:

- Difrifoldeb y mater dan sylw
- Hygrededd y pryder
- Y tebygolrwydd y gellir cadarnhau bod yr honiad wedi cael ei wneud gan ffynhonnell briodoladwy a chael gwybodaeth gan y ffynhonnell honno

Ym mhob achos o chwythu'r chwiban, os byddwn yn ystyried bod angen cynnal ymchwiliad i gadarnhau'r ffeithiau, nid yw hynny'n golygu ein bod yn tybio bod y pryderon chwythu'r chwiban yn wir. Mae'n golygu bod y materion dan sylw yn ddifrifol a bod angen cadarnhau'r ffeithiau.

Byddwn yn trafod â'r LCC y ffordd orau o gadarnhau'r ffeithiau a byddwn yn amlinellu'r materion y byddwn yn ymchwilio iddynt a'r dull gweithredu y cytunwyd arno yn ysgrifenedig.

**Mae pob achos yn wahanol ond mae nifer o bethau a allai ddigwydd:**

- Gofyn i'r bwrdd ymchwilio i'r mater (fel arfer, drwy benodi rhywun annibynnol)
- Gofyn i'r corff llywodraethu gael cyngor neu gymorth annibynnol i'w helpu i ddelio â'r sefyllfa
- Cynnal/comisiynu ymchwiliad (wedi'i gynllunio neu un dirybudd)
- Cyfeirio'r mater at reoleiddiwr arall, er enghraifft, AGGCC, am fod y mater yn rhan o gylch gwaith rheoliadol y rheoleiddiwr hwnnw
- Cyfeirio'r mater at yr heddlu am ein bod o'r farn y gallai trosedd fod wedi cael ei chyflawni
- Dim gweithredu ymhellach oherwydd, er enghraifft, efallai nad oes digon o dystiolaeth i ni weithredu arni, neu efallai ein bod wedi cael sicrwydd bod y LCC wedi delio â'r mater yn briodol, neu efallai ein bod o'r farn bod y mater yn flinderus neu'n wacsaw.

Pan fyddwn yn cysylltu â LCC am honiadau chwythu'r chwiban, byddwn yn gwneud hynny'n gyfrinachol drwy Gadeirydd y Bwrdd. Byddwn yn dweud cymaint ag y gallwn wrth y LCC am yr honiadau ond byddwn yn ceisio peidio â rhoi unrhyw fanylion a allai ddatgelu pwy yw'r chwythwr chwiban.

Byddwn yn cadw cyfrinachedd y chwythwr chwiban i'r graddau sy'n bosibl, gan gynnwys ar ôl i'r achos chwythu'r chwiban ddod i ben, ac ni fyddwn yn rhoi rhagor o fanylion am y pryderon chwythu'r chwiban ar ôl i'r achos ddod i ben nag y gwnaethom yn wreiddiol.

**Sut I gysylltu â'r Rheoleiddiwr**

Gan e-bost: housingregulation@llyw.cymru

Gan ffôn: 0300 062 8906

## Sut mae'r rheoleiddiwr yn ymdrin â phryderon Chwythu'r Chwiban

Derbyn pryder gan chwythwr chwiban

**Dienw**

Person sy'n Ymchwilio:

Rhoi brîff i'r Tîm Rheoli Rheoleiddio sy'n cynnwys:

- Difrifoldeb y mater dan sylw;
- Hygrededd y pryder
- Y tebygolrwydd y gellir cadarnhau bod yr honiad wedi cael ei wneud gan ffynhonnell briodoladwy a chael gwybodaeth gan y ffynhonnell honno

**Priodoledig**

Person sy'n Ymchwilio:

Cyfweld â'r Tîm Rheoli Rheoleiddio a rhoi brîff iddo sy'n cynnwys:

- P'un a yw'r pryderon wedi cael eu codi'n fewnol a pha gamau a gymerwyd
- Pa dystiolaeth sydd ar gael i brofi ei bryderon
- Adolygu unrhyw dystiolaeth a ddarparwyd

Y Tîm Rheoli Rheoleiddio yn cytuno ar y camau nesaf ac yn cael unrhyw gyngor sydd ei angen

Cyflwyno'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt i'r Panel Sicrwydd Allanol er mwyn iddo eu cadarnhau cyn symud ymlaen

(Nid oes angen cymryd y cam hwn os bydd y Tîm Rheoli Rheoleiddio yn penderfynu nad oes angen cymryd camau pellach)